Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Rhagolygon economaidd ac ariannol

## Diweddarwyd: Chwefror 2014

## Diben

Mae'r papur briffio hwn yn crynhoi'r rhagolygon diweddar ar gyfer economi'r DU[1] a sut y mae'r rhain wedi newid yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n cymharu rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (SCC) â rhagolygon annibynnol, pan fydd hynny'n bosibl. Caiff y papur hwn ei ddiweddaru ddwywaith y flwyddyn yn dilyn cyhoeddi rhagolygon y SCC (yn yr hydref a'r gwanwyn).

## Cefndir y rhagolygon

Sefydlwyd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (SCC) yn 2010 i roi dadansoddiad annibynnol o gyllid cyhoeddus y DU. Mae'r Swyddfa'n llunio adroddiad ddwywaith y flwyddyn ar y rhagolygon ar gyfer yr economi a chyllid cyhoeddus. Cyhoeddwyd y rhagolwg diweddaraf[2] ar y cyd â Datganiad yr Hydref y Canghellor[3] ar 5 Rhagfyr 2013.


Bydd Trysorlys ei Mawrhydi yn cyhoeddi adroddiad[4]bob mis yn crynhoi'r rhagolygon ar gyfer economi'r DU a gyhoeddir gan sefydliadau annibynnol. Mae'r ffigurau hyn yn dangos rhagolygon tymor canolig cyfartalog y sefydliadau annibynnol, fel yr oeddent ar 9 Rhagfyr 2013.

[1] Nid oes rhagolygon cymharol ar gael ar gyfer Cymru.
[2] Economic and Fiscal Outlook , Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 5 Rhagfyr 2013 [fel ar 10 Rhagfyr 2013
[3] Datganiad yr Hydref 2013, Trysorlys ei Mawrhydi, 5 Rhagfyr 2013 [fel ar 10 Rhagfyr 2013]
[4] Forecasts for the UK economy: A comparison of independent forecasts, Trysorlys ei Mawrhydi, 9 Rhagfyr 2013 [fel ar 10 Rhagfyr 2013]

## Twf CMC

Mae ffigur 1 yn dangos y rhagolygon ar gyfer twf cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) (rhagolygon y SCC a rhagolygon cyfartalog annibynnol) rhwng 2013 a 2018.

**Ffigur 1: Twf cynnyrch mewnwladol crynswth (canran y newid ers y flwyddyn flaenorol)**




Ffynhonnell: Adroddiadau ar ragolygon economaidd ac ariannol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (SCC) a Rhagolygon Trysorlys ei Mawrhydi ar gyfer economi'r DU

**Mae hyn yn dangos, ers mis Mawrth 2013, bod rhagolygon y SCC wedi'u diwygio a'u cynyddu 0.8 pwynt canran ar gyfer 2013, gyda 0.6 pwynt canran o gynnydd pellach ar gyfer 2014. Mae'r rhagolygon ar gyfer 2015, 2016 a 2017 wedi'u diwygio a'u gostwng 0.1 pwynt canran.**

Yn y tymor byr, mae'r rhagolygon annibynnol yn llai optimistaidd na rhagolygon y SCC, gyda'r rhagolygon ar gyfer twf cynnyrch mewnwladol crynswth yn cynyddu 0.5 pwynt canran yn 2013 a 0.6 pwynt canran yn 2014. Fodd bynnag, yn y tymor canolig, mae'r rhagolygon annibynnol yn fwy optimistaidd na rhagolygon y SCC, gyda thwf y cynnyrch mewnwladol crynswth yn cynyddu 0.3 pwynt canran yn 2015 a 0.2 pwynt canran yn 2016. Yn 2017, mae'r rhagolygon annibynnol yr un peth ym mis Tachwedd 2013 â mis Chwefror 2013.

O'u cymharu â rhagolygon y SCC ym mis Rhagfyr 2012: Mae rhagolygon twf CMC wedi'u diwygio a'u cynyddu 0.2 pwynt canran ar gyfer 2013, a 0.4 pwynt canran yn 2014. Fodd bynnag, y maent wedi'u diwygio a'u


gostwng 0.1 pwynt canran ar gyfer 2015, 2016 a 2017.

O'u cymharu â rhagolygon y SCC ym mis Tachwedd 2010, mae rhagolygon twf CMC yn is, sef gostyngiad o 1.5, 0.4 a 0.5 pwynt canran ar gyfer 2013, 2014 a 2015 yn y drefn honno.

## Chwyddiant - Mynegai Prisiau fnyddwyr

Mae Ffigur 2 yn dangos y rhagolygon ar gyfer chwyddiant fel y'i mesurir gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) (rhagolygon y SCC a rhagolygon annibynnol) rhwng 2013 a 2018.

**Ffigur 2: Mynegai Prisiau Defnyddwyr (canran y newid ers y flwyddyn flaenorol)**




Ffynhonnell: Adroddiadau ar ragolygon economaidd ac ariannol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (SCC) a Rhagolygon Trysorlys ei Mawrhydi ar gyfer economi'r DU

**Mae hyn yn dangos, ers mis Mawrth 2013, fod rhagolygon y SCC wedi'u diwygio a'u gostwng fymryn, sef 0.2 pwynt canran ar gyfer 2013 a 0.1 pwynt canran ar gyfer 2014. Nid yw'r rhagolygon ar gyfer 2015, 2016 a 2017 wedi newid.**

Mae'r rhagolygon annibynnol yn nodi cynnydd tebyg i ragolygon y SCC, gyda chwyddiant, ar gyfartaledd 0.1 pwynt canran yn uwch dros y cyfnod dan sylw o'i gymharu â'r rhagolygon annibynnol ar gyfer mis Chwefror 2013.


O'u cymharu â rhagolygon y SCC ym mis Mawrth 2012, mae'r rhagolygon ar gyfer chwyddiant CPI wedi'u diwygio a'u cynyddu 0.9 pwynt canran ar gyfer 2013, 0.5 pwynt canran ar gyfer 2014, a 0.1 pwynt canran ar gyfer 2015. Nid yw'r rhagolygon ar gyfer 2016 wedi newid.

O'u cymharu â rhagolygon y SCC ym mis Tachwedd 2010, mae'r rhagolygon ar gyfer chwyddiant CPI yn uwch yn 2013, 2014 a 2015 (0.8, 0.4, a 0.1 pwynt canran yn y drefn honno).

## Diweithdra

Mae Ffigur 3 yn dangos y rhagolygon ar gyfer diweithdra fel y'i mesurir gan y nifer sy'n hawlio budd-dal diweithdra[5] (rhagolygon y SCC a'r rhagolygon annibynnol) rhwng 2013 a 2018.

**Ffigur 3: Nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra (miliynau)**




Ffynhonnell: Adroddiadau ar ragolygon economaidd ac ariannol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (SCC) a Rhagolygon Trysorlys ei Mawrhydi ar gyfer economi'r DU

**Mae hyn yn dangos bod rhagolygon y SCC, ers mis Mawrth 2013, wedi'u diwygio a'u gostwng ar gyfer pob blwyddyn: 150,000 ar gyfer 2013, 360,000 ar gyfer 2014 a 2015, 300,000 ar gyfer 2016 a 250,000 ar gyfer 2017.**

Mae'r rhagolygon annibynnol 120,000 yn is ar gyfer 2013, 220,000 yn is ar gyfer 2014, 240,000 yn is ar gyfer 2015, 200,000 yn is ar gyfer 2016 a 170,000 yn is ar gyfer 2017, o'u cymharu â'r rhagolygon annibynnol ym mis Chwefror 2013.


[5] Mae **Nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra** yn cyfri y nifer sy'n hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig â diweithdra; Ers mis Hydref 1996, dyma nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith.

O'u cymharu â rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer mis Rhagfyr 2012, mae'r rhagolygon ar gyfer nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra hefyd wedi'u diwygio a'u gostwng ar gyfer pob blwyddyn: 230,000 yn is ar gyfer 2013, 420,000 yn is ar gyfer 2014, 400,000 yn is ar gyfer 2015, 350,000 yn is ar gyfer 2016 a 300,000 yn is ar gyfer 2017.

O'u cymharu â rhagolygon y SCC ym mis Tachwedd 2010, mae'r rhagolygon ar gyfer y nifer sy'n hawlio budd-dal diweithdra yn uwch ar gyfer pob blwyddyn, sef cynnydd o 130,000 ar gyfer 2013, 60,000 ar gyfer 2014, a 130,000 ar gyfer 2015.

Mae Ffigur 4 yn dangos y rhagolygon ar gyfer diweithdra fel y'u mesurir gan gyfradd ddiweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol [6] (rhagolygon y SCC yn unig; nid yw'r ffigurau hyn ar gael yn y rhagolygon annibynnol) rhwng 2013 a 2018.

**Ffigur 4: Cyfradd ddiweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol (canran o'r boblogaeth economaidd weithgar).**




Ffynhonnell: Adroddiadau ar Ragolygon Economaidd ac Ariannol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

**Mae hyn yn dangos bod rhagolygon y SCC, ers mis Mawrth 2013, wedi'u diwygio a'u gostwng ar gyfer pob blwyddyn, 0.3 pwynt canran ar gyfer 2013, 0.9 pwynt canran ar gyfer 2014 a 2015 a 0.8 pwynt canran ar gyfer 2016 a 2017.**

O'u cymharu a rhagolygon mis Rhagfyr 2012, mae rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedi'u diwygio a'u gostwng ar gyfer pob blwyddyn. Yn 2013 mae'r rhagolygon wedi'u diwygio a'u gostwng 0.6 pwynt canran, gyda gostyngiadau eraill o 1.1 pwynt canran yn 2014, ac o 1 pwynt canran ym mhob blwyddyn rhwng 2015 a 2017.

O'u cymharu â rhagolygon y SCC ym mis Tachwedd 2010, mae'r rhagolygon ar gyfer pob blwyddyn yn uwch, ac yn dangos cynnydd o 0.4 pwynt canran ar gyfer 2013 a 2014 a chynnydd o 0.9 pwynt canran ar gyfer 2015.

## Lefelau benthyca a dyled y sector cyhoeddus

Defnyddiwyd **Lefel benthyca sylfaenol net y sector cyhoeddus** gan y SCC fel ei brif ddull o asesu cyllid cyhoeddus yn rhagolygon mis Rhagfyr 2013.

Defnyddiwyd hwn fel y prif fesur gan y SCC, oherwydd ei fod yn cau allan effaith dau ffactor dros dro sydd wedi effeithio llawer ar lefelau benthyca, sef trosglwyddo asedau Cynllun Pensiwn y Post Brenhinol unwaith ac am byth (a chyfrifoldebau pensiwn cysylltiedig yn y dyfodol) i'r Llywodraeth yn 2012-13 a throsglwyddo arian parod yn barhaus o'r Cyfleuster Pwrcasu Asedau (APF) i'r Trysorlys.


**Mae SCC yn rhagweld y bydd lefel benthyca sylfaenol net y sector cyhoeddus yn gostwng dros y pum blwyddyn ariannol nesaf, nes cyflawni gweddill yn y gyllideb a ragwelwyd ar gyfer 2018-19. Hwn fyddai'r gweddill cyntaf yn y gyllideb ers 2000-01.**[7]

[6] **Cyfradd ddiweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol** yw'r ganran o bobl economaidd weithgar sy'n ddi-waith yn ôl mesur y Sefydliad Llafur Rhyngwladol. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n ddi-waith ond sy'n chwilio am swydd, neu'r rhai sy'n ddi-waith ond a fydd yn dechrau gweithio yn ystod y pythefnos nesaf. Caiff ei fesur gan arolwg o'r llafurlu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac mae'n ddull mwy cynhwysfawr o fesur diweithdra na'r nifer sy'n hawlio budd-dal diweithdra gan ei fod yn cynnwys pawb sy'n ddi-waith, yn hytrach na dim ond y rhai sy'n hawlio budd-dal diweithdra.

[7] Economic and Fiscal Outlook, Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, tudalen 14,5 Rhagfyr 2013 [fel ar 10 Rhagfyr 2013

Mae Ffigur 5 yn dangos y rhagolygon ar gyfer lefel benthyca sylfaenol net y sector cyhoeddus (PSND)[8] (rhagolygon y SCC yn unig gan nad yw'r ffigurau hyn ar gael yn y rhagolygon annibynnol) rhwng 2013-14 a 2018-19.

**Ffigur 5: Lefelau benthyca sylfaenol net y sector cyhoeddus (£ biliwn)**





Ffynhonnell: Adroddiadau ar Ragolygon Economaidd ac Ariannol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

**Mae hyn yn dangos, ers mis Mawrth 2013, bod rhagolygon y SCC wedi'u diwygio a'u gostwng ar gyfer pob blwyddyn; £8.6 biliwn yn 2013-14, £12.4 biliwn yn 2014-15, £16.8 biliwn yn 2015-16, £15.9 biliwn yn 2016-17, ac wedi gostwng £19.3 biliwn yn 2017-18.**

O'u cymharu â rhagolygon y SCC ym mis Rhagfyr 2012 mae rhagolygon dyled net y sector cyhoeddus wedi'u diwygio a'u gostwng ar gyfer pob blwyddyn, sef £0.8 biliwn ar gyfer 2013-14, £3 biliwn ar gyfer 2014-15, £2.3 biliwn ar gyfer 2015-16, £4.9 biliwn ar gyfer 2016-17 a £7.6 biliwn ar gyfer 2017-18.

Mae Ffigur 6 yn dangos y rhagolygon ar gyfer dyled net y sector cyhoeddus (PSND)[9] (rhagolygon y SCC yn unig gan nad yw'r ffigurau hyn ar gael yn y rhagolygon annibynnol) rhwng 2013-14 a 2018-19.

**Ffigur 6: Dylet net y sector cyhoeddus (£ biliwn)**




Ffynhonnell: Adroddiadau ar Ragolygon Economaidd ac Ariannol y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

**Mae hyn yn dangos, ers mis Mawrth 2013, bod rhagolygon y SCC wedi'u diwygio a'u cynyddu ar gyfer pob blwyddyn; £3 biliwn yn 2012-13, £16 biliwn yn 2013-14, £36 biliwn yn 2014-15, £60 biliwn yn 2015-16, £82 biliwn yn 2016-17, ac wedi cynyddu £103 biliwn yn 2017-18.**

Dros y cyfnod rhwng 2013-14 a 2017-18 bydd dyled net y sector cyhoeddus £249 biliwn yn is na'r rhagolygon ym mis Mawrth 2013. Mae hyn yn dangos cymhareb o 78.4 y cant rhwng y ddyled a'r CMC yn 2017-18 (y rhagolwg ym mis Mawrth 2013 oedd 84.8 y cant).

O'u cymharu â rhagolygon y SCC ym mis Rhagfyr 2012 mae'r rhagolygon ar gyfer dyled net y sector cyhoeddus wedi'u diwygio a'u gostwng fymryn o £1 biliwn yn 2013-14. Fodd bynnag, mae'r rhagolygon wedi'u diwygio a'u cynyddu ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill, sef £3 biliwn ar gyfer 2014-15, £9 biliwn ar gyfer 2015-16, £17 biliwn ar gyfer 2016-17 ac £20 biliwn ar gyfer 2017-18. Dros y cyfnod rhwng 2013-14 a 2017-18 bydd dyled net y sector cyhoeddus £48

[8] **Lefelau benthyca sylfaenol net y sector cyhoeddus (PSNB)** yw cyfanswm gwariant y sector cyhoeddus (cyfredol a chyfalaf) llai'r holl incwm, ac mae'n ddull o fesur y sefyllfa ariannol gyffredinol.

[9] **Dyled net y sector cyhoeddus (PSND)** yw cyfanswm cronnus y gofyniad arian parod net yn y sector cyhoeddus, ac mae'n adlewyrchu baich dyled y sector cyhoeddus.

biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Mawrth 2012. Mae hyn yn dangos cymhareb o 78.4 y cant rhwng y ddyled a'r CMC yn 2017-18 (y rhagolwg ym mis Rhagfyr 2012 oedd 77.3 y cant).

O'u cymharu â rhagolygon y SCC ym mis Tachwedd 2010, mae'r rhagolygon ar gyfer PSND yn llawer uwch ac wedi'u diwygio a'u cynyddu £37 biliwn ar gyfer 2013-14, £81 biliwn ar gyfer 2014-15 a £131 biliwn ar gyfer 2015-16. Dros y cyfnod rhwng 2013-14 a 2015-16 bydd dyled net y sector cyhoeddus £249 biliwn yn uwch na'r rhagolygon ym mis Tachwedd 2010. Mae hyn yn dangos cymhareb o 80 y cant rhwng y ddyled a'r CMC yn 2015-16 (y rhagolwg ym mis Tachwedd 2010 oedd 67.2 y cant).

## Rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o fanylion am y ffigurau ac esboniad o'r newidiadau yn y rhagolygon i'w cael yn y ddogfen lawn: ***Economic and Fiscal Outlook***, y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol,[Saesneg yn unig], Rhagfyr 2013

Gwelir manylion ynghylch cyfartaledd y rhagolygon annibynnol a ddefnyddiwyd yn: ***Forecasts for the UK economy***, Trysorlys ei Mawrhydi, Tachwedd 2013

Am ragor o wybodaeth am ragolygon economaidd ac ariannol, cysylltwch â **Gareth Thomas** (**GarethDavid.Thomas@wales.gov.uk**), **Y Gwasanaeth Ymchwil**.

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA